GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (PONT REILFFORDD CEFN, BUTTINGTON, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2011

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn caniatáu i waith hanfodol, sef cynnal a chadw a gosod wyneb newydd, gael ei wneud ar Gefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wrth Bont Reilffordd Cefn, Buttington yn Sir Powys.

Bydd y gwaharddiad a ganlyn, a fydd yn amrywio o ran ei hyd a'i led ac y codir arwyddion priodol yn nodi hynny, yn weithredol rhwng 18.00 o'r gloch ar 22 Ionawr 2011 a 07.00 o'r gloch ar 24 Ionawr 2011 neu hyd oni fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud oddi yno'n derfynol.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag teithio ar y darn hwnnw o'r gefnffordd wrth Bont Reilffordd Cefn yn Buttington yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt ar ben de-orllewinol y fynedfa i Cefn Cottage i bwynt 150 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â Sale Lane.

Er na ddisgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod, bydd yn aros yn ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith ychwanegol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Yn ystod cyfnodau cau'r ffordd, y llwybr amgen i gerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd iddynt deithio tua'r dwyrain ar y gefnffordd i gylchfan yr A5 yn Shelton , Amwythig.. Teithio tua'r gogledd-orllewin ar yr A5 i gylchfan yr A483 yng Nghroesoswallt. Teithio tua'r de-orllewin ar yr A483 i gylchfan yr A458 a theithio tua'r dwyrain ar yr A458 i Bont Reilffordd Cefn.. I'r gwrthwyneb i gerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2011).

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3

GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, TRAFNIDIAETH, TAI AC ADFYWIO, IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A458 TRUNK ROAD (CEFN RAILWAY BRIDGE, BUTTINGTON, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2011

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to enable essential maintenance and resurfacing works to be carried out on the A458 Shrewsbury - Dolgellau Trunk Road (hereinafter referred to as "the trunk road") at Cefn Railway Bridge, Buttington in the County of Powys.

The following prohibition, the extent of which will vary and be sign-posted accordingly, will operate between the hours of 18.00 hours on the 22 January 2011 until 07.00 hours on 24 January 2011 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding in that length of the trunk road at Cefn Railway Bridge at Buttington in the County of Powys which extends from a point at the south-western end of the access to Cefn Cottage to a point 150 metres south-west of the its junction to Sale Lane.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

During the periods of closure, the alternative route for westbound vehicles will be to travel east on the trunk road to the A5 roundabout at Shelton, Shrewsbury. Take the A5 north-west to the A483 roundabout at Oswestry. Take the A483 south-west to the roundabout with the A458 and take the A458 east to Cefn Railway Bridge. Vice versa for eastbound vehicles.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Assembly Government's Website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2011).

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division 3

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM THE WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, TRANSPORT, HOUSING AND REGENERATION, TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE